# Asesiad Digonolrwydd Chwarae Ceredigion a Cynllun Gweithredu

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Crynodeb Gweithredol

Mawrth 2019

**Crynodeb o Asesiad Digonolrwydd Chwarae Ceredigion 2019 a Chynllun Gweithredu Chwarae 2019-2022**

Darperir pecyn cymorth ar gyfer asesu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses a chaiff hwn ei rannu'n 9 adran (fel a nodir isod) Mae ymgynghori'n eang gyda phartneriaid yn y cyngor, yn y 3ydd Sector, yn y gymuned a gyda phlant, pobl ifanc a rhieni yn ofynnol er mwyn gwneud yn siwr bod gennym sylfaen dystiolaeth eang i seilio'r Cynllun Gweithredu Chwarae arni.

Anfonwyd adrannau perthnasol o'r pecyn cymorth i'r partneriaid a ganlyn yn y Cyngor i'w cwblhau, ar ffurf hunan-asesiad:

- Economi ac Adfywio
- Ecoleg/Bioamrywiaeth
- Ymchwil a Dadansoddi
- Chwaraeon a Hamdden
- Traffig a Thrafnidiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Cymorth i Deuluoedd
- Adnoddau Dynol
- Gofal Plant
- Porth y Gymuned
- Cynllunio
- Tîm cefnogi Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus
- Y Gwasanaeth Ieuenctid
- Gwasanaethau Ariannol - Yswiriant
- Tîm Plant Anabl
- Y Gwasanaeth Ysgolion
- Theatr Felinfach
- Amgueddfa Ceredigion
- Dechrau'n Deg
- Tîm o Amgylch y Teulu
- Cered

Anfonwyd adrannau perthnasol o'r pecyn cymorth i bartneriaid 3ydd sector, ar ffurf dadansoddiad o'r Cyngor:

- HomeStart
- Sustrans
- DASH Ceredigion
- RAY Ceredigion
- CAVO
- Heddlu Dyfed Powys - tîm ACE
- Mudiad Meithrin
- Y Groes Goch Brydeinig - cymorth i ffoaduriaid
- Canolfannau i Deuluoedd
- Gweithredu dros Blant - Cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc

Anfonwyd holiaduron i bob Ysgol Gynradd yng Ngheredigion, a gofynnwyd i ddisgyblion Blwyddyn 5 (8 a 9 oed) ymateb ynghylch y cyfleoedd chwarae a oedd ar gael iddynt yng Ngheredigion. Mae 14% wedi ymateb hyd yn hyn, a dyma ddywedwyd:

49% yn mynd allan i chwarae neu'n 'cymdeithasu' gyda ffrindiau y rhan fwyaf o ddyddiau
90% yn dweud bod ganddynt lawer neu ddigon o amser i chwarae
47% yn dweud bod y mannau y maen nhw'n chwarae ynddyn nhw'n grêt, "Rwy'n gallu gwneud yr holl bethau rydw i eisiau"
95% yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel drwy'r adeg neu fel arfer wrth chwarae neu gymdeithasu
93% yn dweud bod yr oedolion yn wych ac yn hapus, yn iawn ac yn fodlon efo plant yn chwarae tu allan
71% yn cael chwarae tu allan ar eu pen eu hunain neu efo ffrindiau
52% fel rheol yn cerdded neu'n mynd ar eu beic ar eu pen eu hunain neu gyda

ffrindiau i'r llefydd y maen nhw'n chwarae ynddyn nhw

Gofynnwyd iddyn nhw: "Ar y cyfan, pa mor dda ydi'r cyfleoedd i chi chwarae neu gymdeithasu?"

| Maen nhw'n grêt, ni allent for yn well | Maen nhw'n dda ond fe allent for ychydig yn | Maen nhw'n iawn, ond maen nhw angen gwella rhywfaint | Dydyn nhw ddim yn dda ac maen nhw angen gwella | Maen nhw'n ofnadwy ac angen gwella llawer |
|---|---|---|---|---|
| 47% | 38% | 9% | 3% | 2% |

**Mater A: Poblogaeth**

Ers yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae diwethaf yn 2016 gwelwyd tuedd bychan ar i lawr yng nghyfanswm poblogaeth Ceredigion, o 73,700 yn Amcangyfrif Canol-Blwyddyn 2016 i 73,100 yn Amcangyfrif Canol-Blwyddyn 2017. Mae'r rhan fwyaf o'r newid hwn wedi bod yn y grŵp oedran myfyrwyr addysg uwch, a chynnydd bychan iawn (+75) ymysg plant a phobl ifanc rhwng 0-19 oed.

Gan bod ein poblogaeth yn gymharol gyson nid ydym wedi gwneud newidiadau o ran cynllunio ar gyfer y ddapnrariaeth chwarae. Rydym yn tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd Dechrau'n Deg a'n prif drefi ac yn dibynnu ar adborth gan randdeiliaid i fynd i'r afael â materion sy'n codi mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu edrych yn fanwl ar ardaloedd cymharol fach ag anghenion er ein bod yn tueddu i weithio'n ymatebol yn hytrach nag yn rhagweithiol.

Mae'r cyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid yn dda ac mae cynllunio ar gyfer chwarae yn digwydd mewn partneriaeth gyda'n darparwyr gofal plant a chwarae, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, cynghorau tref a chymuned a rhieni/plant/pobl ifanc.

**Mater B: Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol**

Mae pecyn cymorth ar gyfer asesu Llywodraeth Cymru'n rhestru anghenion amrywiol fel a ganlyn:

- Plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ynysig
- Plant sy'n siarad Cymraeg
- Plant o gefndiroedd diwylliannol gwahanol
- Plant anabl
- Plant o gymunedau sipsiwn-teithwyr
- Gofalwyr Ifanc
- Plant Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol

Mae ystod o wasanaethau, grwpiau a chlybiau sy'n cynnig chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc â'r anghenion amrywiol hyn. Rydym yn ymwybodol bod llai, neu ddim, darpariaeth chwarae mewn rhai lleoliadau gwledig. Yn ogystal â hyn, mae cludiant yn broblem i rieni mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i'r rhai â chanddynt fwy o anawsterau (e.e. plant anabl a'u brodyr a'u chwiorydd).

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau'n mynd yn gynyddol dynnach ac mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o gyflwyno gwasanaethau. Mae'n bwysig ein bod yn cynnal y cyllid cyfyngedig sy'n cefnogi chwarae mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â darpariaeth chwarae a chynlluniau chwarae arbenigol sy'n hawdd mynd atyn nhw. Er bod llawer o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg rydym am wneud mwy i sicrhau bod plant sy'n siarad Cymraeg yn hyderus wrth chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na'u bod yn troi i'r Saesneg.

Mae'r cyfathrebu'n dda rhwng gwasanaethau ac mae hyn yn ein galluogi i drafod ac ymateb i rwystrau y mae rhai plant yn eu hwynebu wrth fynd at gyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, gellid gwella'r wybodaeth am anghenion rhai grwpiau (e.e. Sipsiwn-teithwyr, Gofalwyr Ifanc) ac mae angen i ni wneud yn siŵr bod ganddynt lais yn hyn.

**Mater C: Mannau Agored a Mannau Chwarae Dynodedig yn yr Awyr Agored heb ddarpariaeth staffio**

<u>Mannau Agored</u>

Mae'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar ddod yn rhoi cyfle am gydweithio rhwng ein Hasesiad Mannau Agored, ein Hasesiad Seilwaith Gwyrdd a'n Hasesiad Digonolrwydd Chwarae. Mae hwn yn waith ar y gweill ac mae is-grŵp datblygol sy'n gweithio ar hyn yn cynnwys Cynllunio, Bioamrywiaeth, Chwarae, Teithio Llesol a Hawliau Tramwy. Fodd bynnag, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn nodi y **gall** yr asesiad gynnwys ardaloedd chwarae ac felly nid yw'n ofynnol.

Mae Cynlluniau Bro'n cael eu datblygu yn rhan o'r grŵp Prosiect Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: 'Deall ein Cymunedau' i gynorthwyo i gyflwyno'r cynllun Llesiant lleol. Y cymunedau lleol sy'n arwain ar y rhain ac maen nhw'n debygol o gynnwys mannau agored a gwyrdd.

<u>Mannau Chwarae Dynodedig yn yr Awyr Agored heb ddarpariaeth staffio</u>

Mae'r Cyngor wedi trosglwyddo pob ardal chwarae (ar wahân i un) i berchnogaeth y gymuned. Mae hyn yn golygu nad oes dylanwad gennym ar ansawdd y mannau chwarae na pha mor hawdd yw hi i fynd atyn nhw. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyngor a chyllid i wella mannau chwarae cymunedol a bydd ffurflenni ceisiadau am grant yn y dyfodol yn gofyn am ansawdd ac ymgynghoriad.

Mae rhestr ar gael o'r holl fannau chwarae cymunedol â chyfarpar ynddynt a'r caeau chwarae yng Ngheredigion a hoffem drosglwyddo'r rhestr hon i fap 'mannau chwarae' rhyngweithiol y mae'n hawdd i'r cyhoedd fynd ato. Cynhaliwyd yr asesiad gwerth chwarae ar fannau chwarae yn 2013 ddiwethaf ac mae angen diweddaru hwn.

Mae **Erthygl 12** o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP/UNCRC - Parchu Barn Plant) yn datgan bod gan blant yr hawl i ddweud

beth, yn eu barn nhw, ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, ac y dylid cymryd barn y plant i ystyriaeth. Weithiau, mae penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud sy'n effeithio ar gyfleoedd chwarae plant ac rydym am ddatblygu proses sy'n galluogi plant a phobl ifanc i roi eu barn ar y penderfyniadau hyn.

**Mater D: Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth**

Darpariaeth gwaith chwarae

Mae'r Cyngor yn ariannu sefydliadau allanol i gyflwyno darpariaeth chwarae. Yn gyffredinol, mae hyn at ddibenion cefnogi rhieni, ymgysylltu â theuluoedd neu ofal plant yn hytrach na 'chwarae er mwyn chwarae'. Yn ddelfrydol byddem yn ariannu 'chwarae er mwyn chwarae' ond nid oes cyllideb ddynodedig ar gyfer y math yma o ddarpariaeth. Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod pob gwasanaeth perthnasol yn deall pwysigrwydd darparu amgylchedd chwarae cyfoethog i blant. Byddwn yn defnyddio amodau ariannu, hyfforddiant a rhwymedigaethau cytundebol yn arf i sicrhau bod cyfleoedd chwarae o ansawdd da yn cael eu cynnig gan staff cymwys.

Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un hyblyg, amrywiol a diddorol ac yn un y gellir ei addasu. Mae'n cynyddu i'r eithaf y potensial ar gyfer cymdeithasu, bod yn greadigol a dyfeisgar, yn gosod her ac yn rhoi dewis.

Gweithgareddau hamdden adeiledig i blant

Mae Ceredigion Actif yn cynnal rhaglenni i wella sgiliau corfforol a chodi hyder a chymhelliant. Nid cynyddu gweithgareddau chwarae rhydd i blant yw'r prif symbylydd iddyn nhw ond maen nhw'n awyddus i amrywio eu rhaglenni i annog plant nad ydynt yn hoff iawn o chwaraeon, neu'n meddwl nad yw chwaraeon iddyn nhw, i ymrwymo. Mae toriadau cyllidebol yn golygu bod chwaraeon a chynlluniau hamdden egnïol a chorfforol yn golygu dod o hyd i ffyrdd o gynnal y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na chynyddu'r gweithgareddau.

Mae Clybiau Ieuenctid Ceredigion yn cynnig gweithgareddau hamdden strwythuredig ar gyfer pobl ifanc e.e. crochenwaith, gwnïo, pêl-droed, saethyddiaeth a diwrnodau gweithgareddau. Maen nhw'n ymgynghori'n rheolaidd â phobl ifanc ynghylch y math o ddarpariaeth y bydden nhw'n ei hoffi. Er nad cyfleoedd chwarae ydynt, a bod yn fanwl gywir, ond mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu, gweithgareddau hamdden a hamddena.

**Mater E: Ffioedd ar gyfer darpariaethau chwarae**

Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod gan y plant hynny y mae angen darpariaeth rad neu rad ac am ddim arnynt fynediad i'r ddarpariaeth honno. Mae nifer o'n gwasanaethau, er nad yw pob un ohonynt, yn cael eu cynnig yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Aeth Dechrau'n Deg drwy adolygiad yn ddiweddar i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynnig yn yr ardaloedd iawn yn lleol. Byddai'n ddefnyddiol

adolygu'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnig yn yr ardaloedd cywir.

Fodd bynnag, mae'n anodd gwybod yn union lle mae pob plentyn sy'n rhan o deulu incwm isel yn byw. Mae ein data'n cysylltu â Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (MALIC/WIMD) sy'n defnyddio data Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ac mae'r ardaloedd hyn yn rhy fawr i ganiatáu i ni ddynodi teuluoedd unigol yn benodol mewn ardaloedd gwledig isel eu poblogaeth.
Rydym yn tueddu i ddibynnu ar adborth gan weithwyr allweddol a Chydlynwyr y Tîm o Amgylch y Teulu sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd unigol.

Darperir cludiant ar gyfer grwpiau bregus (e.e. Gofalwyr Ifanc, plant anabl, plant sy'n derbyn gofal) i'w cynorthwyo i fynd at gyfleoedd chwarae a hamdden. Mae'r cludiant hwn yn dibynnu ar gyllid grant yn aml ac felly'n ansicr.

Mae cysylltiadau da rhwng darparwyr chwarae a gwasanaethau'r Cyngor sy'n cynnig grantiau a chymorthdaliadau ar gyfer darpariaeth chwarae. Mae grant cymunedol Ceredigion ar gael i ddarparwyr chwarae ac mae gwybodaeth am y grant yma ar gael ar wefan y Cyngor. Mae swyddogion y Cyngor, hefyd, yn cyfeirio'r rhai sy'n chwilio am grantiau i CAVO gan eu bod yn gallu gwneud chwiliadau am gyllid.

**Mater F: Mynediad i ofod/darpariaeth**

Traffig a Thrafnidiaeth

Mae'n bwysig bod plant yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau er mwyn gallu cyrraedd mannau chwarae yn ddiogel. Cynhelir adolygiadau terfynau cyflymder o bryd i'w gilydd a chyflwynir newidiadau yn ôl y galw - mae'r adolygiad nesaf wedi'i amserlennu ar gyfer 2019/20. Mae monitro parhaus yn digwydd mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Camerâu Diogelwch Cymru 'Gan Bwyll', yr Heddlu, cymunedau lleol a thrwy Bartneriaeth Diogelwch Cymunedau Ceredigion - Is-grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd.

Dynodwyd Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan yn lleoliadau Teithio Llesol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae gwelliannau yn y trefi hyn wedi canolbwyntio ar leoliadau ysgolion yn ogystal â chael mynediad gwell i ardaloedd chwarae/hamdden cyfagos e.e. tawelu traffig er mwyn gwella'r cyswllt rhwng Ysgol Uwchradd Aberteifi a'r ardal chwarae a'r caeau pêl-droed a rygbi cyfagos.

Mae Teithio Llesol a chynlluniau Llwybrau Diogel i Gymunedau yn cynnwys gosod cysgodfeydd ar gyfer beiciau/sgwteri mewn ysgolion. Mae Tîm Diogelwch y Ffyrdd y Cyngor Sir yn darparu rhaglen o addysgu, hyfforddi ac ymwybyddiaeth diogelwch ar y ffyrdd i blant ysgolion cynradd. Mae'n cynnwys hyfforddiant 'Kerbcraft' i blant sy'n gerddwyr a'r Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio i roi'r sgiliau sylfaenol i blant eu defnyddio ar deithiau bob dydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn ddibynnol ar ddyraniadau cyllid grant o un flwyddyn i'r llall gan Lywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar fformiwla sy'n cynnwys nifer y boblogaeth. Mae swm y cyllid grant wedi gostwng yn gyson dros amser.

Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau

Er mwyn i blant a theuluoedd gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae, gweithgareddau hamdden a digwyddiadau mae'n angenrheidiol iddyn nhw wybod beth sydd ar gael yn eu hardal.

Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu gwybodaeth i rieni. Mae penawdau pwnc bras yn cynnwys Chwarae, Chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill. Mae Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gyhoeddi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardal a sicrhau bod yr hyn sydd wedi'i gyhoeddi yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Yn Ebrill 2018, cafodd y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS), y tîm ymroddedig a'r wefan eu hymgorffori i wasanaeth newydd Porth y Gymuned (PyG). Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn parhau i gael eu darparu gan y Cyngor. Cydnabyddir, fodd bynnag, bod angen i fwy o wybodaeth chwarae fod ar gael ar dudalennau'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a bod yna gyfleuster chwilio rhyngweithiol; rydym yn bwriadu defnyddio gwefan DEWIS Cymru yn offeryn chwilio. Mae Cysylltwyr Cymunedol o'r Gwasanaeth PyG yn parhau i gymell grwpiau a sefydliadau i uwchlwytho'u gwybodaeth i DEWIS Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae tudalen *Facebook* Teuluoedd Ceredigion yn rhoi hysbysrwydd i ddigwyddiadau a chyfleoedd chwarae. Dechrau'n Deg sy'n cynnal hyn ond gall unrhyw un roi manylion iddyn nhw eu lanlwytho ac mae angen i ni godi ymwybyddiaeth yn ehangach am hyn.

**Mater G: Diogelu a datblygu'r gweithlu chwarae**

Mae gwaith chwarae yn broffesiwn sgil uchel sy'n cyfoethogi ac yn creu mwy o gyfleoedd chwarae. Mae'n digwydd pan fo oedolion yn cefnogi chwarae plant ond nid yw'n cael ei yrru gan addysg ragnodedig na chanlyniadau gofal. Mae hyn yn cynnwys mynediad agored a lleoliadau gofal plant y tu allan i ysgol. Yn ddelfrydol byddai'r Awdurdod Lleol yn cyflogi gweithlu chwarae gan y byddai hyn yn cynorthwyo i ddatblygu cyfleoedd i chwarae a gwaith chwarae yng Ngheredigion ond nid oes cyllideb benodedig ar gyfer y math yma o ddarpariaeth.

Mae rheoliadau newydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn gofyn bod gan y rhai sy'n cynnig gofal plant y tu allan i ysgol gymhwyster Gwaith Chwarae Lefel 2 erbyn 2021. Mae ein Uned Gofal Plant yn gweithio gyda darparwyr lleol a Chymunedau am Waith a Mwy i gefnogi darparwyr gofal plant lleol i fodloni'r gofyn hwn.

Mae hyfforddiant yn eitem safonol ar grŵp strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae. Mae llawer o hyfforddiant yn cael ei gynnig er bod ychydig o ddiffyg cydgysylltu ac mae angen creu rhaglen hyfforddiant flynyddol sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd ychwanegol am Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Mae rôl ystod o randdeiliaid eraill yn effeithio ar chwarae plant - y rhai a all naill ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol neu eu cynllunio wrth chwarae neu'r rhai sydd â'r gallu i roi caniatâd i blant chwarae neu beidio.    Rydym am gyflawni dadansoddiad o anghenion hyfforddiant y rhanddeiliaid hyn a datblygu rhaglen o weithdai a chyflwyniadau Ymwybyddiaeth wrth Chwarae priodol er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r pwnc hwn.

**Mater H: Ymgysylltiad a chyfranogiad y gymuned**

Mae'n bwysig ein bod yn ymgynghori'n eang gyda phlant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'u barn ar ddarpariaeth chwarae.    Mae ystod o grwpiau o ddefnyddwyr y gwasanaeth yr ydym yn trafod gwasanaethau a chynlluniau penodol gyda nhw:

- Fforwm Anabledd Ceredigion
- Cyngor Ieuenctid Ceredigion
- Grwpiau Ardal Dechrau'n Deg
- Grŵp GUS (*Give us Support*)
- Cyngor Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Gofalwyr Ifanc

Weithiau, mae ardaloedd chwarae newydd yn cael eu datblygu yn y sir neu mae arian ar gael ar gyfer cyfarpar newydd.    Mae'r Cyngor yn annog partneriaid i ymgynghori ar y datblygiadau newydd hyn gyda phlant a'u teuluoedd a datblygwyd pecyn cymorth i gefnogi hyn.    O Ebrill 2019 byddwn yn cynnwys yr angen ar i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o ymgynghori wrth iddynt wneud cais am gyllid Gwaith Chwarae.

Mae amser gwaith y Swyddog Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc (ar hyn o bryd yn 0.6 cyfwerth ag amser llawn) yn targedu'n bennaf y ddarpariaeth ieuenctid ac felly mae llai o ffocws ar gyfranogiad plant dan 11 oed.    Byddwn yn edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.

Mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu ethos cymunedau sy'n rhoi cyfle i chwarae.    Rydym yn cydnabod rôl yr aelodau etholedig sy'n cynrychioli buddiannau'r bobl yn eu ward.    Yn ogystal â hyn, mae gennym Rwydwaith Ardal Gwaith Chwarae, rhith-grŵp o randdeiliaid, grwpiau cymunedol yn bennaf, sy'n berchen ar ardaloedd chwarae cymunedol neu'n eu rheoli.    Mae polisi ymgysylltu â'r gymuned y Cyngor a'r pecyn gwybodaeth sy'n cyd-fynd ag ef ar ein gwefan fewnol i bob aelod staff gael mynediad iddo;  mae angen adolygu'r polisi hwn.

**Mater I: Chwarae yn rhan o holl agendâu polisi a gweithredu perthnasol**

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i Awdurdodau Lleol archwilio pob agenda polisi am yr effaith posibl ar y cyfleoedd chwarae sydd ar gael i blant.    Mae hyn yn digwydd yn fwy naturiol mewn rhai ardaloedd polisi yng Ngheredigion nag eraill a byddwn yn datblygu gweithdai a chyflwyniadau Ymwybyddiaeth ynghylch Chwarae

i’w gyflwyno i ystod o randdeiliaid a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau er mwyn cynorthwyo i sefydlu’r disgwyliad hwn.

Cynllun Llesiant Ceredigion

Mae’r Cynghorydd Catrin Miles yn Aelod Eiriolwr ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac yn Gadeirydd Fforwm Darparwr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae hefyd yn aelod o ddau grŵp prosiect cynlluniau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Hyfforddiant Cydnerthedd a Grŵp Prosiect Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd).

Ni ddynodwyd chwarae yn rhywbeth y dylid canolbwyntio i weithredu arno yn y Cynllun Llesiant yn ystod yr ymgynghoriad gyda’r cyhoedd a gweithwyr rheng-flaen. Mae’r Asesiad Llesiant yn cydnabod bod cyfleoedd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored yn hanfodol, fodd bynnag, ac mae’n thema sy’n debygol o ymddangos yng ngwaith y Grwpiau Prosiect a sefydlwyd i gyflwyno’r cynllun.

Addysg ac Ysgolion

Mae nifer o arferion da o ran ysgolion yn cynnig amgylcheddau chwarae cyfoethog, yn ystod amserau chwarae ac ar ôl ysgol, ond nid oes cysondeb. “mae rhai ysgolion yn wych ac yn rhentu eu neuaddau allan ac ati, mae gan rai lawer o adnoddau ond nid ydynt yn cynnig y gorau.” Mae angen i ni dynnu sylw at arferion da, sefydlu dull cyson o ddelio â hyn lle’n bosibl a sicrhau ein bod yn deall y rhwystrau y mae rhai ysgolion yn eu hwynebu wrth ddarparu amgylchedd chwarae cadarnhaol.

Cynllunio Gwlad a Thref

Cafodd polisïau penodol eu rhoi yn y Cynllun Datblygu Lleol i geisio mynd i’r afael â’r diffyg mannau agored cyhoeddus sydd ar gael yng Ngheredigion. Nid yw hyn wedi arwain at lawer iawn mwy o fannau agored cyhoeddus, fodd bynnag. Mae disgwyl ein bod yn gallu manteisio ar gytundebau adran 106 er mwyn gwella’r seilwaith chwarae lleol. Mae hyn yn anodd yng Ngheredigion gan nad oes llawer o ddatblygwyr mawr yn yr ardal ac mae diffyg sefydliadau a fyddai’n ymgymryd ag ardal chwarae newydd o dan gytundeb adran 106.

Traffig a Thrafnidiaeth

Mae rhan o gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn golygu cyflwyno mesurau lleihau cyflymder, darparu mannau croesi ffordd diogel a chynlluniau i wella mynediad ar droed ac ar feic o’r ardaloedd preswyl i barciau, cyfleusterau chwarae awyr agored a chanolfannau hamdden lleol. Mae cyfleusterau’n cael eu datblygu drwy gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Cedwir at bolisïau corfforaethol a gweithdrefnau ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth a grwpiau â nodweddion gwarchodedig trwy gydol y cyfnod o ddatblygu’r cynllun.

Cynlluniau Blynyddoedd Cynnar

Buddsoddwyd yn sylweddol mewn ardaloedd chwarae i blant rhwng 2-4 oed mewn lleoliadau gofal plant Dechrau’n Deg. Mae Diwrnodau Hwyl i’r Teulu a gweithgareddau gan grwpiau Ymgysylltu yn hybu chwarae ac mae cyrsiau hyfforddi i rieni yn cyflwyno pwysigrwydd chwarae. Mae Ceredigion wedi’i derbyn yn sir

fraenaru Integreiddio Blynyddoedd Cynnar a bydd hyn yn golygu datblygu dull Blynyddoedd Cynnar aml-asiantaeth sydd â'r potensial i gynnwys Chwarae.

Polisi a Mentrau Cymorth i Deuluoedd

Nid oes gan Geredigion strategaeth Cymorth i Deuluoedd benodol ond mae pob darparwr cymorth i deuluoedd yn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae gyda'ch plentyn ac mae'r gwaith yn gydnaws â chanllawiau Llywodraeth Cymru, 'Rhianta yng Nghymru - Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth' sy'n cefnogi'r ffocws ar wneud amser ar gyfer chwarae.  Mae angen rhoi hyfforddiant ar effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) i ddarparwyr gofal plant a chwarae a chodi ymwybyddiaeth ynghylch rôl Chwarae wrth liniaru effaith ACE a chryfhau cydnerthedd.

Polisi a Mentrau Pontio'r Cenedlaethau

Nid oes gan Geredigion bolisi pontio'r cenedlaethau yn benodol ond mae mentrau diweddar yn cynnwys ymweliadau Canolfannau i Deuluoedd â Chanolfannau Dydd lle bo gweithgareddau fel lliwio, jig-sos, llinynnu a chanu'n digwydd.    Dywedodd staff y Canolfannau i Deuluoedd, "os nad yw'r bobl hŷn am wneud rhywbeth, mae'r plant yn eu tynnu i mewn i'w wneud, mae'n wych gweld y tair cenhedlaeth (plant/rhieni/pobl hŷn) yn gwneud pethau gyda'i gilydd."

Iechyd a Diogelwch

Nid oes gan Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar ddarpariaeth chwarae'r awdurdod (ar wahân i chwarae mewn ysgolion).  Fodd bynnag, mae'r Uned yn rhoi cymorth ac arweiniad ar chwarae, cyfarpar ac asesiadau risg.  Er enghraifft, mae gan ysgol leol ffrâm ddringo ar ei thir sy'n boblogaidd iawn. Syrthiodd nifer o blant oddi arni a thorri rhannau o'u cyrff mewn cyfnod byr iawn.  Roedd rhieni rhai o'r plant am i'r ffrâm gael ei symud oddi yno.  Fodd bynnag, adolygwyd y broses asesu risg ar y darn hwn o gyfarpar gyda chefnogaeth y swyddog Iechyd a Diogelwch, a rhoddwyd mesurau rheoli ychwanegol yn eu lle.  Ni chafodd ei symud oddi yno ac mae nawr ar gael i'w defnyddio eto.

**Cynllun Gweithredu Chwarae i fynd i'r afael â'r materion/diffygion a gofnodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae**

**Camau Gweithredu Arfaethedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2022**

| Mater | Blaenoriaethau | Targedau | Maes Gwasanaeth | Ffynhonnell ariannu |
|---|---|---|---|---|
| **Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol** | Gwella darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ynysig | • Ymateb i'r astudiaeth ddigonolrwydd a'r angen am ddarpariaeth ieuenctid symudol yng Ngheredigion | Gwasanaeth Ieuenctid, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Yn bodoli (ond mae'n bosibl y bydd angen mwy o gyllid) |
| | Datblygu llwybr i gynyddu gallu'r gymuned i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant sy'n byw mewn cymunedau gwledig | • Llunio a chyflwyno cynllun cyfathrebu blynyddol ar gyfer cael bwletinau misol yn y Rhwydwaith Ardal Chwarae<br>• Cynnig hyfforddiant i rieni ac eraill yn y gymuned leol i'w cefnogi wrth ddarparu cyfleoedd chwarae ar stepen y drws.<br>• Cefnogi cymunedau i ystyried y model *Play Pod* ar gyfer cadw adnoddau at ddefnydd y gymuned. | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion | Yn bodoli (ond mae'n bosibl y bydd angen mwy o gyllid) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n gyfforddus yn siarad gyda'u ffrindiau drwy gyfrwng y Gymraeg. | • Hyrwyddo Siarter Iaith Ysgolion Ceredigion Ceri Siarad - % o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ennill gwobrau (aur/arian/efydd) o dan Gynllun Siarter Ceri Siarad)<br>• Cefnogi'r sector gofal plant er mwyn bodloni Cynnig Gweithredol yr Iaith Gymraeg | Cered, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant<br>Gofal Plant, Gwasanaethau Ysgolion | Yn bodoli |
| | Cefnogi darparwyr gweithgareddau i fod yn ymwybodol o anghenion teuluoedd o gefndiroedd diwylliannol gwahanol a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, a darparu ar eu cyfer nhw. | • Canfod yr angen ar i ragor o wybodaeth i gefnogi darparwyr chwarae a hamdden fod ar gael i deuluoedd o gefndiroedd diwylliannol a ieithyddol gwahanol; edrych ar enghreifftiau o arferion da mewn meysydd eraill a darparu cymorth lle bo angen. | Cydraddoldeb ac Ymgysylltiad, Y Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Yn bodoli |
| | Gwella'r cyswllt rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chymunedau Sipsiwn a Theithwyr | • Dynodi ac ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn rhoi gwybodaeth i'r asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr nesaf ac Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn y dyfodol. | Ymchwil a Dadansoddi, Y Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Yn bodoli |
| | Sicrhau ein bod yn deall Gofalwyr Ifanc | • Cefnogi cynrychiolaeth o Ofalwyr Ifanc ar Gyngor Ieuenctid y Sir | Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau | Yn bodoli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | a'n bod yn bodloni eu hanghenion | • Hyrwyddo e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Ofalwyr Ifanc o fewn y gweithlu Gofal Plant a Chwarae | Plant/Uned Gofalwyr, Gwasanaethau Oedolion | |
| **Mater C: Lle ar gael i blant chwarae** | Gwella ein dealltwriaeth o Fannau Agored a Llecynnau Gwyrdd y mae'n hawdd mynd atyn nhw | • Ymgymryd ag Asesiad o Fannau Agored ar gyfer canolfannau gwasanaethau gwledig sy'n bodoli<br>• Ymgymryd ag Asesiad Seilwaith Gwyrdd (a all gynnwys ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer chwarae) yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.<br>• Adolygu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Mannau Agored ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd | Polisi Cynllunio ac Ymchwil, Economi ac Adfywio (a phartneriaid) | Yn bodoli |
| | Sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yn y cofnod o fannau chwarae dynodedig | • Diweddaru'r rhestr o fannau chwarae ar y Rhestr Genedlaethol o Dir ac Eiddo, ychwanegu'r rhestr o gaeau chwarae a'i gwneud yn hawdd i'r cyhoedd fynd at y wybodaeth.<br>• Adolygu Asesiad Mannau Chwarae 2013 a'i roi i ddarparwyr mannau chwarae er mwyn bwydo gwybodaeth i gynllunio yn y dyfodol (yn ddibynnol ar gyllid) | Ymchwil a Dadansoddi, y Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad<br>Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion | Dim cyllid ar gael ar hyn o bryd |
| | Gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu barn ar benderfyniadau cynllunio sy'n effeithio | • Datblygu dull y cytunwyd arno, mewn partneriaeth â phobl ifanc, swyddog cyfranogiad a swyddogion cynllunio, i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio arnyn nhw. | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion<br>Polisi Cynllunio ac Ymchwil, | Yn bodoli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ar eu cyfleoedd chwarae. | • Defnyddio cyllid AWPOG i gyflawni gweithgaredd ymgynghori yn ystod hanner tymor Chwefror 2020 ac i ymgynghori gyda phobl ifanc ar ddatblygiad y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. | Economi ac Adfywio<br><br>Gwasanaeth Ieuenctid, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Cyllid AWPOG (os yw ar gael yn 2019/20) |
| | Gwella hygyrchedd mannau chwarae cymunedol yng Ngheredigion | • Cynnwys yr angen am gynlluniau/polisi i ddarparu mannau chwarae hawdd mynd atyn nhw drwy nawdd grant a ddarparwyd gan yr ALl i ailwampio neu ddatblygu caeau chwarae newydd.<br>• Datblygu grŵp 'Pobl Ifanc Anabl yn Ymgynghorwyr' a chynnal archwiliad i fannau chwarae cymunedol a pha mor hawdd yw mynd atyn nhw. | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion | Cyllid AWPOG (os yw ar gael yn 2019/20)<br><br>Dim cyllid ar gael ar hyn o bryd |
| **Mater D: Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth** | Sicrhau bod ein hystod o ddarparwyr chwarae yn deall ystyr 'amgylchedd chwarae cyfoethog' a'u bod yn cael y gefnogaeth i'w ddarparu. | • Parhau i gefnogi cynaliadwyedd gofal plant a'r sector chwarae a sicrhau bod amodau'r ariannu'n cynnwys yr angen i roi tystiolaeth o ddarpariaeth 'amgylchedd chwarae cyfoethog'.<br>• Sicrhau bod y ddarpariaeth a ariannwyd neu a gomisiynwyd gan y Cyngor yn bodloni gofynion rheoliadol a/neu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol<br>• Cynnig hyfforddiant chwarae i ddarparwyr cymorth i deuluoedd | Uned Gofal Plant, Gwasanaethau Ysgolion<br><br>Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf,<br><br>Gwasanaethau Plant | Yn bodoli<br><br>Yn bodoli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mater E: Ffioedd ar gyfer darpariaeth chwarae** | Sicrhau fod plant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn gallu cael mynediad i sesiynau chwarae am ddim. | • Adolygu cyflwyno sesiynau chwarae a gomisiynwyd gan yr ALl i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn yr ardaloedd cywir. | Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Plant | Yn bodoli |
| **Mater F: Mynediad i ofod/darpariaeth** | Sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu mynd at ddarpariaeth chwarae yn ddiogel | • Cynnal y mecanwaith sydd yn ei le ar gyfer monitro parhaus ac adolygu parthau diogelwch ysgolion/parthau 20mya mewn ardaloedd preswyl | Diogelwch a Theithio Llesol, Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd | Yn bodoli |
| | Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ddarpariaethau chwarae a digwyddiadau | • Cynyddu nifer y grwpiau a'r sefydliadau sy'n defnyddio gwefan DEWIS Cymru i hyrwyddo cyfleoedd chwarae<br>• Monitro ansawdd y wybodaeth am y ddarpariaeth chwarae a roddir ar Dewis gan brosiectau a gomisiynwyd (fel rhan o fonitro contractau).<br>• Datblygu gwybodaeth am Chwarae ar dudalennau Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (gwefan CSC) | Porth y Gymuned,<br>TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid | Yn bodoli (ynghyd â grant AWPOG os yw ar gael yn 2019/20) |
| **Mater G: Diogelu a datblygu'r gweithlu** | Sicrhau y gall y gweithlu Chwarae a Gofal Plant gael mynediad i ystod o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus. | • Cynnal archwiliad o leoliadau y mae angen y cymhwyster gwaith chwarae arnyn nhw erbyn Medi 2021 a chwilio am gyfleoedd hyfforddi addas sy'n bodloni eu hanghenion<br>• Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi flynyddol ar gyfer darparwyr gofal plant/chwarae - cydlynu gyda rhanddeiliaid a chydlynu drwy'r grŵp strategol Gofal Plant, Blynyddoedd Cynnar a Chwarae | Uned Gofal Plant, Gwasanaethau Ysgolion | Yn bodoli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cefnogi cyflwyno hyfforddiant priodol i grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr | • Blaenoriaethu o leiaf 1 x cwrs Chwarae ar gyfer gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a rhieni pan fydd cyllid ar gael.<br>• Targedu 3 ysgol arall ar gyfer y rhaglen *Skills2Play*<br>• Targedu'r 5 Canolfan Deuluoedd i gynnal rhaglen Teuluoedd Egnïol<br>• Gweithio mewn partneriaeth â'r tîm Cyn-ysgol Iach ac adran addysgu CSC i gyflwyno hyfforddiant i 30 uned cyn-ysgol/meithrinfa ar Ffit yn 5 a Llythrennedd Corfforol | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion<br><br>Plant Ifanc Egnïol, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Dim cyllid ar gael ar hyn o bryd<br><br>Yn bodoli |
| **Mater H: Ymgysylltiad a chyfranogiad y gymuned** | Gwella ymgysylltiad y gymuned a chyfleoedd ar gyfer cyfranogi | • Gofyn am dystiolaeth o ymgynghori â'r gymuned wrth gyllido'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i grwpiau cymunedol<br>• Dynodi hyfforddiant ar gyfranogi ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n cyflwyno i blant dan 11 oed<br>• Adolygu a hyrwyddo polisi Ymgysylltiad â'r Gymuned y Cyngor, a'r Pecyn Gwybodaeth sy'n cyd-fynd ag ef. | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion<br>Uned Gofal Plant, Gwasanaethau Ysgolion<br>Cydraddoldeb ac Ymgysylltiad, y Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Grant AWPOG (os yw ar gael yn 2019/20)<br><br>Yn bodoli |
| **Mater I: Chwarae ar yr holl agendâu** | Sicrhau bod pwysigrwydd chwarae yn cael ei | • Datblygu rhaglen barhaus o weithdai/cyflwyniadau i sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel strategol - y rhai sy'n cynllunio ar gyfer chwarae neu sydd â'r gallu i roi caniatâd i blant chwarae | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion | Yn bodoli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **polisi a gweithredu perthnasol** | gydnabod a'i ddeall ar lefel strategol | | | |
| | Sicrhau bod plant yn mwynhau amgylchedd chwarae cyfoethog yn ystod y diwrnod ysgol | • Sicrhau bod ysgolion Ceredigion wedi mabwysiadu Polisi Chwarae a'u bod yn gwybod sut i gael mynediad at gefnogaeth, cyllid a chyngor i wella'r cyfleoedd chwarae lle bo angen.<br>• Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r ddarpariaeth chwarae y tu allan sy'n bodoli mewn ysgolion (gan gynnwys Ysgolion, Yswiriant, Iechyd a Diogelwch, Datblygiad Chwarae, Ysgolion Iach a Chynnal a Chadw) | Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion<br><br>Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion | Yn bodoli |
| | Sicrhau bod gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf a chefnogaeth i rieni i'w galluogi i gefnogi eu plant wrth chwarae | • Cyflwyno hyfforddiant ar effaith ACE i ddarparwyr gofal plant a chwarae<br>• Codi ymwybyddiaeth am rôl Chwarae wrth liniaru effaith ACE a chynyddu cydnerthedd | Uned Gofal Plant, Gwasanaethau Ysgolion<br><br>Chwarae, Gwasanaethau Ysgolion | Yn bodoli |